**Enw'r Ysgol: Baladeulyn** **Cyfeiriad: Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL546BT**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
**Dengys wrth graffu ar lyfrau fod mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu yn ôl eu cyflawniad yn dda yn y maes. Gwelir fod dilyniant a pharhad rhwng y ddau gyfnod Allweddol yn ogystal ag oddi mewn y 2 ddosbarth sydd yn yr ysgol. Mae'r plant yn gallu trafod eu gwaith yn effeithiol ac mae eu sgiliau llafar darllen ac ysgrifennu yn amlwg yn cael eu cymhwyso'n llwyddiannus ac i safon da o fewn y pwnc.**

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
**Gweler uchod**

**Materion i gael sylw**
**Angen chwilio am gyfleoedd i gymhwyso tasgau rhifedd o fewn y cynlluniau (data.... diagramau venn ayyb)**

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
**Mae'r cynlluniau gwaith yn dangos fod AG yn cael ei ddysgu'n wythnosol yn y ddau ddosbarth. Yn ddiweddar fe ail gynlluniwyd y pwnc yn nosbarth CA2 a hynny sicrhau cwricwlwm cytbwys a modern sy'n diwallu y gofynion Cenedlaethol Cytunedig . Yn ystod y cylch monitro gwelwyd bellach yn CA2 fod arferion a nodweddion am grefyddau'r byd yn cael eu astudio a'u cymharu gyda'i gilydd.**
**Mae bron pob un dysgwr yn gallu trafod a mynegi barn am yr hyn a ddysgwyd.**

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
**Mae eu sgiliau llafar darllen ac ysgrifennu yn amlwg yn cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n llwyddiannus i safon da o fewn y pwnc.**

**Materion i gael sylw**
**Mae angen cynllunio ymhellach gweithgareddau i gymhwyso TGCH a Rhifedd**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Addoli ar y Cyd**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012).

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
**Bydd gwasanaeth ysgol gyfan yn cael ei gynnal 2 waith yr wythnos gyda gwasanaethau dosbarth ar y 3 diwrnod arall. Naws Gristnogol sydd i'r gwasanaethau gyda gwerthoedd gweledigaeth ein ysgol yn cael ei thrafod yn gyson (cyfeillgarwch a charedigrwydd). Bydd y disgyblion hefyd yn cymeryd rhan yn y gwasanaethau hyn ac ar adegau yn arwain y cynllunio.**
"Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, teimla'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus iawn. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn creu ethos Cristnogol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel cyfeillgarwch a charedigrwydd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y berthynas waith gadarnhaol rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion â'i gilydd."
(Adroddiad arolygu ESTYN Tachwedd 2017)

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
**Parhau i adeiladu ar y nodweddion uchod**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Llofnod: Eleri Ogwen Pollard (Pennaeth)**

**Dydddiad: 18/1/18**